



Nodweddion Arber

NODWEDDION ARBENNIG AHNE BRYNIAU CLWYD

Wrth nodi rhaglen reoli ar gyfer gwarchod a gwella'r AHNE mae angen yn gyntaf diffinio'r nodweddion unigol hynny sy'n ffurfio cymeriad yr ardal. Ar ôl ymgynghori gyda chymunedau lleol, cyrff cyhoeddus ac asiantaethau gyda diddordeb yn rheolaeth yr ardal, nodwyd rhestr o ddeuddeg Nodwedd Arbennig o'r elfennau penodol hynny yn y dirwedd sy'n gwneud Bryniau Clwyd yn arbennig.

Tra cydnabyddir bod nifer o elfennau eraill yn y dirwedd sydd o werth arbennig, mae'n bwysig adnabod y nodweddion hynny o fewn Bryniau Clwyd sy'n cynrychioli'r nodweddion gorau yn genedlaethol.

Cydnabyddir hefyd bod cymeriad arbennig AHNE Bryniau Clwyd yn cynnwys cyfuniad unigryw o'r holl Nodweddion Arbennig ac mae amcanion o'r fath yn cyfrannu tuag at wella a gwarchod cymeriad yr AHNE cyfan.

Mae'n bwysig nad yw rheolaeth yn canolbwyntio yn benodol ar un nodwedd arbennig ond yn cymryd i ystyriaeth batrymau cymhleth nodweddion tirwedd a nodweddion eraill sy'n ffurfio'r tirlun. Mae Bryniau Clwyd yn hynod oherwydd amrywiaeth cynefin a chymeriad sy'n ffurfio'r ardal arbennig hon.

Rhestr Nodweddion Arbennig

Bioamrywiaeth

- Glaswelltir Carreg Galch
- Coedlannau brasddeiliog
- Dyffrynnoedd Afonydd
- Gweundir Grugog

Yr Amgylchfyd Hanesyddol

- Bryngeyrydd, Henebion Rhestredig ac Archaeoleg
- Nodweddion Hanesyddol Bychain
- Ffiniau Traddodiadol

Mynediad ac Adloniant

- Parc Gwledig Loggerheads a Moel Famau
- Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa
- Rhwydwaith hawliau tramwy

Diwylliant a Phobl

- Yr Amgylchfyd Adeiliedig
- Cymunedau Cynaliadwy





Y Weledigaeth ar gyfer Ardal Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd

Mae AHNE Bryniau Clwyd yn dirwedd ddeinamig gyda chymunedau ffyniannus ac economi lleol ffyniannus. Mae'r dirwedd yn cefnogi adnoddau biolegol a diwylliannol cyfoethog sy'n hygyrch i bawb. Mae tirwedd Bryniau Clwyd yn cael ei gwerthfawrogi fel hafan dawel gan y rhai sy'n byw yno ac yn ymweld â'r ardal, ac yn cael ei thrysori oherwydd ei mannau agored a'r golygfeydd gwych. Mae ei nodweddion arbennig yn cael eu deall a'u gwerthfawrogi gan bawb.

Mae cymunedau ac ymwelwyr yn chwarae rhan lawn mewn partneriaeth gyda'r Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol a'i staff, sy'n rhoi cyfle iddynt gael cyfranddaliad yn yr AHNE a buddsoddi yn ei dyfodol.

Mae Bryniau Clwyd yn bwysig o ran datblygiad cynaliadwy a chynllunio i'r dyfodol ac mae ei amddiffyniad rhyngwladol fel tirwedd categori V yn ddylanwadol ar lwyfan rhyngwladol, cenedlaethol a lleol.



Adroddiad Cyflwr yr AHNE

FIG 1 Bioamrywiaeth

ADNODDAU	DISGRIFIAD	IPYNCIAU	CYFLWR
Glaswelltir Carreg Galch a Phalmant Lled Naturiol (GCGPhLIN)	Mae glaswelltir carreg galch yn digwydd yn bennaf mewn dwy ardal yn y gogledd o Brestatyn i'r Cwm ac yn ganolog ar hyd Dyffryn Alun. Mae'n gorffen yn y palmant carreg galch ail fwyaf yng Nghymru ym Mryn Alun. Mae mwyafrif y GCGPhLIN yn SDdGA. Maint 215 Hectar 1.3% of AHNE GCGPhLIN	<ul style="list-style-type: none"> • Mae tan-bori yn annog tresmasiad prysgwydd • Chwarela • Cyfoethogi pridd oherwydd gwrtaiith a cholli amrywiol rywogaethau o ganlyniad. • Cymryd palmant ar gyfer gerddi creigiau • Ffensys 	<p>Cyflwr delfrydol – amrywiaeth cyfoethog o fflora o'r prysgwydd</p> <p>% dan reolaeth bositif dim ar gael</p> <p>Cyflwr Anffafriol – dirywio</p>

FIG 2

ADNODDAU	DESCRIPTION	ISSUES	STATE
Coedlannau Brasddeiliog	Mae llawer o'r coedlannau hyn yn cynrychioli cysylltiad gyda'r dirwedd fel yr ymddangosodd ar ôl yr oes iâddiwethaf ac mae'n cefnogi amrywiaeth o fflora ac anifeiliaid Mae coedlannau onnen yn benodol yn bwysig yn Nyffryn Alun lle maent wedi eu dynodi yn ymgeiswyr AGA. Mewn rhannau eraill o'r AHNE mae coedlannau derw yn arwyddocaol 2.2% o'r AHNE yn goedlan lled-hynafol. 345 Hectar.	<ul style="list-style-type: none"> • Pori yn rhwystro adfywiad naturiol • Colled oherwydd chwarela lleol yn yr ardaloedd carreg galch • Diffyg rheoli coedlannau. • Gwrthdrawiad posibl rhwng saethu a chadwraeth 	<p>Cyflwr delfrydol – strwythur oedran eang coed cynhenid gyda fflora daear cyfoethog</p> <p>% o'r goedlan yn yr AHNE yn CGC</p> <p>Cyflwr Anffafriol – sad</p>

FIG 3

ADNODDAU	DISGRIFIAD	IPYNCIAU	CYFLWR
Dyffrynnoedd Afonydd	Mae dau ddyffryn afon arwyddocaol yn yr AHNE. Afon Alun o Gilcain i Lanarmon-yn-lâ ac Afon Chwiler o Fodfari i Felin-y-wern. Hyd afonydd 18km.	<ul style="list-style-type: none"> • Ansawdd y dwr. • Colli llystyfiant ar y glannau. • Colli dyfrgwn oherwydd traffig ar yr A494. • Colli llygod y dwr. • Mynediad i'r afon. • Gwrtaiith yn rhedeg oddi ar y tir. • Llifogydd. 	<p>Cyflwr delfrydol – dwr glân gydag amrywiaeth eang o fflora ac anifeiliaid</p> <ul style="list-style-type: none"> • Monitro cyfrifiad pysgod, dyfrgwn, llygod y dwr a llystyfiant ar y glannau. • % cynnydd mewn tystiolaeth o ddyfrgwn a llygod y dwr. • % porfeydd gwlyb. • % afonydd gyda llystyfiant ar y glannau. <p>dim ar gael</p> <p>Cyflwr Ffariol – sad</p>



FIG 4

ADNODDAU	DISGRIFIAD	IPYNCIAU	CYFLWR
Gweundir Grugog Ucheldirol	<p>Cynnwys cymysgedd o rug, llus ac eithin. Amrywiaeth benodol o adar gan gynnwys grugiar, clep y cerrig a chlochdar yr eithin.</p> <p>Mae'r gweundir yn yr AHNE rhwng Bodfari a Llandegla ac yn bennaf ar neu yn cyffinio crib yr AHNE.</p> <p>1813 Hectar 11.5% o'r AHNE</p>	<ul style="list-style-type: none"> * Bu colled sylweddol o'r cynefin hwn oherwydd gwelliannau amaethyddol yn y 1970au, pan gafodd ardaloedd eu gwella i ffurfio glaswelltir i bori defaid. * Mae rhannu'r comin gyda ffensys mewnol wedi arwain at golli preiddiau hefted. * Mewn ardaloedd eraill mae'r golled wedi golygu crynodiad rhywogaethau gweundir ar y mannau darniog sydd ar ôl. * Mae rhai mannau wedi eu gor-bori. * Mae rhai mannau wedi eu tan-bori. Mae darn arwyddocaol wedi ei golli i redyn. * Oherwydd y pridd tenau mae mannau lle mae'r adloniant mwyaf yn dioddef erydiad. * Mae rheolau CRoW yn golygu y bydd y gweundir arwyddocaol sydd ar ôl yn destun mynediad agored. * Diffyg rheoli grug cylchol priodol. 	<p>Cyflwr delfrydol – strwythur oedran eang grug gyda phlanhigion eraill, llus ac ati.</p> <p>Mae'r blociau canolog dan reolaeth bositif trwy berchnogaeth gyhoeddus a Chytundeb ESA.</p> <p>% gweundir dan reolaeth bositif. – dim ar gael.</p> <p>Cyflwr Anffafriol – gwella</p>

FIG 5 Yr Amgylchfyd Hanesyddol

ADNODDAU	DISGRIFIAD	IPYNCIAU	CYFLWR
Bryngegyrdd a Henebion Rhestredig	<p>Mae'r gadwyn o fryngegyrdd oes haearn ar grib Bryniau Clwyd yn cynrychioli proffil uchaf y lle ac maent yn safleoedd archaeolegol unigryw. Mae'r 6 bryngaer mor agos at ei gilydd yn darparu un o'r crynodiadau mwyaf yng Ngorllewin Ewrop.</p> <p>Mae 47 Heneb Rhestredig yn yr AHNE.</p> <p>Cyn gwneud unrhyw waith ar y safleoedd hyn rhaid cael caniatâd gan CADW. Mae llawer o'r safleoedd yn darparu tystiolaeth o fwyngloddio yn y gorfennol ac aneddiadau.</p>	<ul style="list-style-type: none"> * Erydiad i'r bryngegyrdd trwy adloniant a defaid. * Difrod trwy gyfrwng rheoli tir yn amhriodol e.e. chwarela, plannu coed a gor-bori. * Diffyg cloddiadau archaeolegol, felly diffyg dealltwriaeth fodern o'u pwrpas. * Erydiad. * Aredig. * Niwedd o chwilio am fetelau. 	<p>3 ym mediant y Cynghorau Sir.</p> <p>Gwaith sylweddol eisoes wedi ei wneud yn y darnau lle mae'r erydiad waethaf.</p> <p>% o'r bryngegyrdd gyda chynlluniau rheoli.</p> <p>Cyflwr delfrydol – safleoedd yn cael eu cynnal mewn cyflwr ffafriol.</p> <p>Safleoedd sy'n cael ymweliad gan CADW bob 5 mlynedd % mewn cyflwr ffafriol.</p> <p>Cyfolwr Ffaffriol – Sad</p>

FIG 6

ADNODDAU	DISGRIFIAD	IPYNCIAU	CYFLWR
Nodweddion Hanesyddol Bychain	Mae'r rhain yn nodweddion sydd, gyda'i gilydd, yn creu cymeriad unigryw yr AHNE ac maent yn annhebygol o gael eu gwarchod er eu bod yn elfen bwysig o ffabrig y dirwedd. Enghreifftiau: blychau ffôn coch, cafnau dwr, cerrig milltir, camfeydd carreg, hen ffynhonnau, hen arwyddion ffordd, creigiau a enwyd a stondinau llaeth.	Mae'r nodweddion hyn yn tueddu i 'ddiflannu' ac mae hyn yn rhannol oherwydd nad oes rhestr gynhwysfawr. Maent hefyd yn diflannu o gael eu moderneiddio trwy gyfrwng cynlluniau gwella ffyrdd.	% colled nodweddion a adnabuwyd. Cyfolwr Sad – gwella



FIG 7

ADNODDAU	DISGRIFIAD	IPYNCIAU	CYFLWR
Ffiniau	Y prif fathau yw gwrychoedd cynhenid ar lethrau a muriau sychion yn yr ardaloedd carreg galch ac ucheldir. Y math arall yw gwrych ar wal gynnal o gerrig. Mae'r nodweddion llinellol hyn yn gynefinoedd bywyd gwyllt gwerthfawr sy'n gweithredu fel coridorau rhwng cynefinoedd. Maint – hyd ffiniau yn yr AHNE – dim ar gael.	<ul style="list-style-type: none"> • Colli waliau oherwydd gwelliannau amaethyddol. • Colled oherwydd diffyg cynnal a chadw. • Colli sgiliau i gynnal yn y dull traddodiadol. • Drud eu cynnal. • Cynhaliath fodern yn anaddas. 	Angen arolygu'r ffiniau a graddio er mwyn i'r rhai sy'n cael yr effaith fwyaf gael eu blaenoriaethu. % ffiniau mewn cyflwr da - dim ar gael. Cyfolwr Anffafriol – gwella



FIG 8 Mynediad ac Adloniant

ADNODDAU	DISGRIFIAD	IPYNCIAU	CYFLWR
Parciau Gwledig Loggerheads a Moel Famau	<ul style="list-style-type: none"> • Elleolwyd yng nghanol yr AHNE ar A494. • Complex wedi ei adeiladu yn bwrpasol yng nghanol y parc gwledig. • Adeiladau yn cynnwys swyddfeydd, caffi a chanolfan ymwelwyr sy'n cynnwys darn ar yr AHNE. • Mae'r ganolfan wybodaeth yn denu 50,000 o ymwelwyr y flwyddyn. 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gan y Ganolfan fwy nag un rôl – hysbysu'r cyhoedd am yr AHNE, hanes y parciau gwledig a Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych. • Yn yr haf caiff ei staffio 7 diwrnod yr wythnos ac yn y gaeaf ar benwythnosau a gwyliau banc. • Mae'r parc gwledig yn denu nifer o ymwelwyr nad ydynt yn ymweld â'r ganolfan ymwelwyr. • Mae'r wardeniaid yn gweithio yn rhannol i ffwrdd o'r ganolfan a staff y caffi. • Nid yw'r ganolfan yn rhan o'r rhwydwaith canolfannau croeso. • Tagfeydd mewn meysydd parcio ar adegau anterth. • Effaith niferoedd mawr o ymwelwyr ar fuddiannau amaethyddol a chadwraeth • Cyflwyniad Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabled. 	<ul style="list-style-type: none"> • Monitro cyflwr, arolwg bob 5 mlynedd ar ymwelwyr â'r ganolfan. • % ymwelwyr yn fodlon gyda'r cyfleusterau yn Loggerheads. • % ymwelwyr sy'n ymwybodol eu bod mewn AHNE. <p>Cyfolwr Ffatriol</p>

FIG 9

ADNODDAU	DISGRIFIAD	IPYNCIAU	CYFLWR
Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa	<p>Mae'r llwybr yn cychwyn ym Mhrestatyn ac am y 45km cyntaf o'r 285km i Gas-gwent mae yn AHNE Bryniau Clwyd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Manteision economaidd i fusnes. • Cynnal a chadw'r llwybr. • Difrod i SAM. • Monitro ymwelwyr ar y llwybr. • Ffurio Ymddiriedolaeth Llwybr yn hytrach na chael ei reoli gan CCGC a LICC. 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Llwybr mewn cyflwr ffatriol. Arolwg llawn ym 1997 gan CCGC. • Holl waith wedi ei flaenoriaethu • % o'r llwybr wedi ei wella dros 5 mlynedd <p>Cyfolwr Ffatriol – gwella</p>

FIG 10

ADNODDAU	DISGRIFIAD	IPYNCIAU	CYFLWR
Rhwydwaith hawliau tramwy	<p>Rhwydwaith mawr o lwybrau, llwybrau marchog a chilffyrdd – arwyddocaŵ hanesyddol gan gynnwys Llwybr Leete a hen ffyrdd y porthmyn. Mae'r rhwydwaith yn dod â manteision economaidd penodol i'r economi lleol km llwybrau km llwybrau marchog km chilffyrdd</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Erydiad ar lwybrau ar y grib • Nid yw'r rhwydwaith yn gwbl agored. • Defnyddio llwybrau yn anghyfrithlon gan feicwyr, marchogion a cherbydau modur. • Nodweddion hanesyddol a bywyd gwylt pwysig ger yr hawliau tramwy gan gynnwys muriau, gwrychoedd ac ati sy'n cael eu hesgeuluso. • Defaid. • Ymwelwyr nad ydynt yn cadw at y Côd Cefn Gwlad. • Gallant weithredu fel pot mâ 	<p>Mae gan Gyngor Sir Ddinbych 1,838 eitem o isadeiledd ac 881 eitem cynnal a chadw i'w trin yn yr AHNE.</p> <p>Cyngor Sir y Fflint - amherthnasol % o'r rhwydwaith sydd ar gael i'r cyhoedd</p> <p>Cyfolwr Sad – gwella</p>

FIG 11 Diwylliant a Phobl

ADNODDAU	DISGRIFIAD	IPYNCIAU	CYFLWR
Yr Amgylchfyd Adeiliedig	Mae'r amgylchfyd adeiliedig yn cwmpasu ystod amrywiol o adeiladau, o ffermydd pellennig i bentrefi bychain.	<ul style="list-style-type: none"> * Ffiniau. * Trosi. * Estyniadau. * Adeiladau Newydd. * Cyflwyno rhywogaethau dieithr. * Adeiladu o'r newydd mewn modd ansympathetig. * Diffyg arweiniad dylunio. 	<p>% o geisiadau a gytunir gan CSDd a CSFF.</p> <p>Cyfolwr Sad – gwella</p>



FIG 12

ADNODDAU	DISGRIFIAD	IPYNCIAU	CYFLWR
Cymunedau Cynaliadwy	Mae cymunedau bywiog yn elfen annatod o dirwedd gynaliadwy. Mae cymunedau yn newid trwy'r amser ac mae'n bwysig cydnabod a gwarchod yr elfennau hynny sy'n werthfawr.	<ul style="list-style-type: none"> * Unigedd, daearyddol a chymdeithasol. * Buddsoddiad mewn cyfleusterau gwledig. * Pwysau datblygu. * Diffyg cyfranogiad mewn digwyddiadau lleol a thraddodiadau. * Newid cyfansoddiad cymunedau gwledig. 	<p>Sefydlu peirianwaith ar gyfer monitro cyflwr y gymuned.</p> <p>Cyfolwr Ffafriol – dirywio</p>

